

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
AMODAU CYFFREDINOL SAFONOL CONTRACTAU**

**ATODIAD A – YR AMODAU CYFFREDINOL SAFONOL SY’N
YMWNEUD Â CHYFLENWI NWDYDDAU**

MYNEGAI

Dehongli

A1 Manyleb

A2 Y Nwyddau

A3 Marcio’r Nwyddau

A4 Pacio

A5 Cynwysyddion a Phaledi

A6 Danfon

A7 Eiddo a Risg

A8 Difrod wrth gludo

A9 Archwilio, Gwrthod a Gwarantu

A10 Y Contractwr heb gyflawni

A11 Modd gwneud y gwaith gosod

A12 Gwarantau a Datganiadau am y Nwyddau

YR AMODAU CYFFREDINOL SAFONOL SY'N YMWNEUD Â CHYFLENWI NWYDDAU

Dehongli

Rhaid i'r Amodau a geir yma gael eu hymgorffori yn Amodau Contract Cyffredinol Safonol Cyngor Sir Caerfyrddin a'u dehongli yn unol â hwy.

A1. Manyleb

A1.1 Rhaid i'r nwyddau fod yn newydd (oni ragnodir fel arall), o'r ansawdd a'r math a ddisgrifir ac yn gyfwerth ym mhob ffordd â'r disgrifiadau, manylebau, patrymau a samplau'r Contractwr sy'n ffurfio rhan o'r contract neu sydd yn berthnasol fel arall at ddiben y Contract. Ac eithrio i'r graddau y nodir yn wahanol gan ddisgrifiadau, manylebau, patrymau neu samplau'r Contractwr, rhaid i'r Nwyddau gydymffurfio'n llwyr â'r Gofynion Statudol, y Deddfau (sy'n rheoli gwerthu a/neu ddarparu) a'r Safonau Rhyngwladol, Ewropeaidd neu Brydeinig perthnasol diweddaraf, lle maent yn bodoli.

A2. Y Nwyddau

A2.1 Os bydd y Cyngor yn mynnu, rhaid i'r Contractwr gyflwyno samplau o'r Nwyddau i'r Cyngor i gael eu gwerthuso a'u cymeradwyo ar gost y Contractwr a rhaid i'r holl Nwyddau a ddarperir wedyn fod o'r un ansawdd â'r samplau a gymeradwywyd neu o ansawdd gwell na hwy.

A2.2 Rhaid i'r Nwyddau fod yn gwbl gytûn â Chyfarpar y Cyngor.

A2.3 Mae'r Cyngor yn dibynnu ar sgil a barn y Contractwr wrth iddo gyflenwi'r Nwyddau a chyflawni holl rwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract hwn.

A3. Marcio'r Nwyddau

A3.1 Rhaid i'r holl nwyddau sydd fel arfer yn dwyn unrhyw farc, tab, brand, label neu arwydd arall sy'n dangos o le y daethant, archwiliad gan unrhyw Lywodraeth neu gorff arall neu safon ansawdd gael eu danfon gyda'r holl farciau, tabiau, brandiau, labeli neu arwyddion eraill yn gyfan.

A4. Pacio

A4.1 Rhaid i'r Nwyddau gael eu pacio'n ddiogel mewn pecynnau masnach o fath a ddefnyddir fel arfer gan y Contractwr i ddanfon yr un nwyddau neu nwyddau tebyg yn fasnachol naill ai mewn meintiau manwerth neu mewn meintiau swmp yn y Deyrnas Unedig.

A4.2 Rhaid dangos y manylion canlynol ar du allan pob pecyn oni ragnodir yn wahanol yn y Contract:

rhif archeb y Cyngor;
disgrifiad o'r Nwyddau;

y maint yn y pecyn;
unrhyw gyfarwyddiadau arbennig ar gyfer storio;
dyddiad dod i ben y cynnwys (lle bo'n berthnasol);
rhif y swp;
enw'r gwneuthurwr.

A4.3 Rhaid cael rhybuddion amlwg a digonol ar holl gynwysyddion Nwyddau peryglus (a phob dogfen sy'n berthnasol iddynt).

A5. Cynwysyddion a Phaledi

A5.1 Rhaid i'r Contractwr gasglu heb godi tâl unrhyw gynwysyddion y mae modd eu dychwelyd (gan gynnwys paledi) cyn pen un diwrnod ar hugain ar ôl dyddiad y nodyn danfon perthnasol, oni fydd y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Caiff y Cyngor ddychwelyd cynwysyddion gwag nas casglwyd fel hyn ar draul y Contractwr neu eu gwaredu mewn modd arall ar ddisgresiwn y Cyngor. Rhaid i'r Contractwr roi credyd llawn am gynwysyddion y codir tâl amdanynt pan gânt eu casglu neu eu dychwelyd.

A6. Danfon

A6.1 Rhaid i'r Contractwr ddanfoni y Nwyddau gyda'r cludiant wedi'i dalu yn y meintiau a'r modd, ar yr adegau ac i'r lleoedd y bydd y Cyngor yn cyfarwyddo mewn ysgrifen o bryd i'w gilydd, sef adegau a lleoedd o fewn y cyfnod a'r lleoliadau a ragnodir yn y Contract.

A6.2 Bydd amser y danfoniad yn hanfodol lle cytunir yn ffurfiol ar ddyddiadau danfon. Bydd peidio â darparu'r nwyddau ar y dyddiad danfon yn galluogi'r Cyngor (o'i ddewis) i ymryddhau o unrhyw rwymedigaeth i dderbyn neu dalu am y Nwyddau a/neu i ddiddymu'r Contract cyfan neu ran ohono oherwydd hynny, yn y naill achos neu'r llall heb ragfarnu ei hawliau a'i rwymedïau eraill.

A6.3 Wrth ddanfoni nwyddau a/neu ddarparu gwasanaeth a phob amser pan fydd ar safleoedd y Cyngor neu ar safle y mae'r Cyngor yn defnyddio unrhyw ran ohono, mewn cysylltiad â'r Contract hwn, rhaid i'r Contractwr/Contractwyr gymryd pob gofal rhesymol i osgoi anaf i bersonau yno a difrod i eiddo'r Cyngor neu eiddo y mae gan y Cyngor unrhyw fudd ynddo a rhaid iddo ddigolledu'r Cyngor, yn unol â Chymal 28, am unrhyw hawliadau, treuliau, achosion, iawndal a chostau a achosir gan unrhyw enghraifft o dorri'r Amod hwn neu sy'n codi o unrhyw enghraifft o dorri'r Amod hwn.

A6.4 Heb ragfarnu unrhyw rwymedïau eraill sydd ar gael i'r Cyngor boed o dan y Contract neu fel arall, oni fydd y Nwyddau wedi cael eu darparu erbyn y dyddiad(au) y cytunwyd arno/arnynt, a ragnodir yn y Fanyleb neu, lle cytunwyd ar estyniad amser, y dyddiad danfon diwygiedig, rhaid i'r Contractwr dalu i'r Cyngor yn iawndal penodedig am bob diwrnod o oedi, ar ôl y dyddiad danfon neu'r dyddiad danfon diwygiedig, fel y bo'n berthnasol, swm o 5% o gyfanswm y Pris a nodir yn y Contract, hyd at fwyafswm o 100% o gyfanswm y Pris. Bydd y cyfryw dâl yn setliad llawn a therfynol o atebolrwydd y

Contractwr am unrhyw golled neu ddifrod a achosir i'r Cyngor hyd at ddiwedd y cyfnod y mae'r iawndal penodedig yn daladwy ynddo o dan y cymal hwn am unrhyw oedi o'r fath.

A7. Eiddo a Risg

A7.1 Bydd yr eiddo a'r risg yn y Nwyddau'n trosglwyddo i'r Cyngor pan fydd y Nwyddau wedi cael eu danfon i'r Cyngor a'u dadlwytho.

A8. Difrod wrth gludo

A8.1 Wrth ddanfon unrhyw lwyth o nwyddau, rhaid i'r Contractwr anfon at y Cyngor nodyn hysbysu sy'n nodi'r dull cludo a lle a dyddiad ei anfon a nifer y pecynnau. Rhaid i'r Contractwr, heb godi tâl ac mor gyflym ag sy'n bosibl, atgyweirio neu amnewid (yn ôl dewis y Cyngor) unrhyw nwyddau a gaiff eu difrodi wrth eu cludo neu sydd, ar ôl cael eu rhoi i'w cludo, yn peidio â chyrraedd y Cyngor, ar yr amod

- (a) yn achos difrod i nwyddau o'r faith wrth eu cludo, rhaid i'r Cyngor hysbysu'r Contractwr cyn pen 14 diwrnod ar ôl eu danfon bod y nwyddau wedi cael eu difrodi;
- (b) os nad yw'r Nwyddau'n cyrraedd bydd y Cyngor (ar yr amod yr hysbyswyd y Cyngor bod y nwyddau wedi cael eu hanfon) cyn pen deg diwrnod ar ôl y dyddiad danfon a hysbyswyd yn hysbysu'r Contractwr nad yw'r nwyddau wedi cyrraedd.

A9. Archwilio, Gwrthod a Gwarantu

A9.1 Rhaid i'r Contractwr/Contractwyr ganiatáu i'r Swyddog Contractio, unrhyw Swyddog Safonau Masnach neu gynrychiolwyr y naill neu'r llall archwilio unrhyw docyn danfon a gwirio maint a/neu ansawdd y nwyddau ar safle'r Contractwr/Contractwyr cyn eu hanfon, wrth eu cludo neu wrth iddynt gyrraedd. Mae hyn yn cynnwys hawl y cyfryw bersonau i wirio'r cerbyd trwy ei bwysu, sy'n golygu ei bwysu gyda'i lwyth trwy ddefnyddio'r cyfarpar pwysu agosaf sy'n addas ac ar gael, a'i bwysu eto ar ôl ei ddadlwytho trwy ddefnyddio'r un cyfarpar pwysu neu gyfarpar pwysu addas arall. Pan wneir cais rhaid i'r Contractwr/Contractwyr neu ei was neu asiant roi i'r Swyddog bob cymorth rhesymol i'w alluogi i wirio maint a/neu ansawdd a gwlad wreiddiol unrhyw nwyddau ac i wneud yr archwiliadau sy'n angenrheidiol yn ei farn ef, gan gynnwys archwilio safle a cherbydau'r Contractwr/Contractwyr.

A9.2 Caiff y Cyngor ddadansoddi neu brofi neu beri i gael eu dadansoddi neu eu profi unrhyw eitemau neu ddeunyddiau a ddanfonir o dan y contract hwn ac os ceir nad yw'r cyfryw eitemau neu ddeunyddiau gyfwerth â'r sampl safonol neu'r fanyleb safonol, neu eu bod yn wahanol iddynt, y Contractwr/Contractwyr fydd yn talu cost y cyfryw ddadansoddiad neu brawf a bydd yr eitemau neu'r deunyddiau a ddanfonir yn cael eu gwrthod a rhaid i'r Contractwr/Contractwyr, ar ei gost ei hun, ddanfon eitemau neu ddeunyddiau eraill a fydd o ansawdd cymeradwy yn lle'r rhai a wrthodir.

A9.3 Bydd gan berson a awdurdodwyd i archebu'r nwyddau neu'r Swyddog Contractio hawl i wrthod unrhyw nwyddau o'r fath na fyddant o'r ansawdd sy'n ofynnol gan yr Amodau hyn neu nad yw eu cyflenwi neu eu danfon yn unol â'r Amodau hyn. Bydd gan y person awdurdodedig hwn yr hawl i gadw sampl o'r cyfryw nwyddau a wrthodwyd. Wrth gael ei hysbysu am eu gwrthod rhaid i'r Contractwr/Contractwyr symud ymaith y cyfryw nwyddau a wrthodir fel hyn ar unwaith ar ei draul ei hun, ar yr amod, rhag ofn y bydd y Contractwr/Contractwyr yn peidio â gwneud hynny bydd gan y Cyngor hawl i symud ymaith y nwyddau a wrthodir a bydd y Contractwr/Contractwyr yn digolledu'r Cyngor am draul eu symud hwy ymaith. Lle bo modd rhoddir hysbysiad gwrthod ar ddiwrnod y danfoniad a gellir ei roi trwy unrhyw fodd i'r Contractwr/Contractwyr, ei weision neu asiantau, a lle gofynnir hynny, rhaid i'r cyflenwr ddarparu nwyddau boddhaol yn lle'r cyfryw nwyddau.

A9.4 Heb ragfarnu gweithredu Amod A9.5 bydd y Cyngor yn hysbysu'r Contractwr:

- (a) am ganfod unrhyw ddiffyg cyn pen pythefnos ar ôl ei ganfod a bydd yn rhoi pob cyfle rhesymol i'r Contractwr ymchwilio i'r cyfryw ddiffyg;
- (b) am unrhyw brinder neu ddifrod a achosir wrth gludo'r nwyddau ac a ganfyddir adeg y danfoniad cyn pen pythefnos ar ôl y danfoniad.

A9.5 Bydd hawl y Cyngor i wrthod nwyddau yn parhau heb ystyried a fydd y Cyngor wedi derbyn y Nwyddau o dan y gyfraith. Yn benodol ni fydd cymryd y danfoniad, archwilio, defnyddio neu dalu am y nwyddau neu ran ohonynt gan y Cyngor yn golygu derbyn, ildio hawl neu gymeradwyo a bydd heb ragfarnu unrhyw hawl neu rwymedi a fydd gan y Cyngor yn erbyn y Contractwr, ar yr amod y bydd yr hawl i wrthod nwyddau yn dod i ben cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl y dyddiad y mae'r Cyngor yn canfod neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ganfod y diffyg cudd neu dor-cytundeb perthnasol arall.

A9.6 Ni fydd rhoi nodyn derbyn gan y Cyngor am y Nwyddau'n golygu cydnabod cyflwr na natur y Nwyddau hynny.

A9.7 Oni fydd yn ofynnol fel arall gan Wahoddiad i Dendro y Cyngor, rhaid i'r Contractwr warantu'r Nwyddau am y cyfnod byrraf o 12 mis ar ôl dechrau eu defnyddio neu 18 mis ar ôl eu danfon. Os bydd y Cyngor cyn pen y cyfryw gyfnod gwarant neu cyn pen 25 Diwrnod Gwaith ar ôl hynny yn hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig am unrhyw ddiffyg yn unrhyw un o'r Nwyddau a fydd wedi codi yn ystod y cyfryw gyfnod gwarant o gael ei ddefnyddio mewn modd priodol ac arferol, rhaid i'r Contractwr (heb ragfarnu unrhyw hawliau a rhwymedïau eraill sydd gan y Cyngor) unioni'r cyfryw ddiffygion cyn gynted ag sy'n bosibl (boed trwy eu hatgyweirio neu eu hamnewid yn ôl dewis y Cyngor) heb gost i'r Cyngor.

A9.8 Bydd unrhyw Nwyddau y mae'r Cyngor yn eu gwrthod neu'n eu dychwelyd fel y disgrifir yng nghymal A9.3 yn cael eu dychwelyd at y Contractwr ar risg a thraul y Contractwr.

A10 Y Contractwr heb gyflawni

A10.1 Heb ragfarnu unrhyw hawl neu rwymedi arall, oni fydd y Contractwr yn danfon y Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt erbyn yr amserau a ragnodir yn y Contract, caiff y Cyngor:

- (a) derfynu'r Contract a phrynu nwyddau/gwasanaethau eraill o'r un disgrifiad neu ddisgrifiad tebyg i unioni'r cyfryw ddiffyg;
- (b) adennill oddi wrth y Contractwr y gwahaniaeth rhwng cost prynu nwyddau/gwasanaethau eraill yn y modd hwn a'r swm a fuasai'n daladwy i'r Contractwr am y Nwyddau/Gwasanaethau y prynwyd y cyfryw Nwyddau/Gwasanaethau eraill yn eu lle.

A11. Modd gwneud y gwaith gosod

A11.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â danfon deunyddiau, peiriannau na phethau eraill na dechrau ar unrhyw waith ar Safleoedd y Cyngor heb gael Cymeradwyaeth o flaen llaw.

A11.2 Ni fydd mynediad i Safleoedd y Cyngor yn gyfyngedig i'r Contractwr yn unig ond bydd yn gyfyngedig i Staff a chyflenwyr y Contractwr y mae eu hangen i alluogi cyflawni'r Contract ar yr un pryd ag y gwneir gwaith gan eraill. Rhaid i'r Contractwr gydweithredu â'r cyfryw eraill ag y gall y Cyngor yn rhesymol eu mynnu.

A11.3 Bydd gan y Cyngor yr hawl ar unrhyw adeg yn ystod cwrs y Contract i orchymyn yn ysgrifenedig:

- (a) symud ymaith o Safleoedd y Cyngor unrhyw ddeunyddiau sydd ym marn y Cyngor yn beryglus, yn niweidiol neu heb fod yn unol â'r Contract; a/neu
- (b) rhoi yn eu lle deunyddiau priodol ac addas; a/neu
- (c) tynnu ac ail-wneud yn briodol heb ystyried unrhyw brawf blaenorol arnynt neu daliad interim amdanynt unrhyw waith neu Nwyddau nad ydynt, o ran deunydd neu saerniaeth, yn unol â'r Contract ym marn y Cyngor.

A11.4 Ar ôl cwblhau'r Contract rhaid i'r Contractwr symud ymaith peiriannau a chyfarpar y Contractwr a deunyddiau y mae'r Contractwr heb eu defnyddio a rhaid iddo glirio o Safleoedd y Cyngor yr holl sbwriel sy'n deillio o'r Contract a gadael Safleoedd y Cyngor mewn cyflwr destlus a thaclus.

A12 Gwarantau a Datganiadau am y Nwyddau

A12.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn datgan: -

- (a) y bydd y Nwyddau i foddhad rhesymol y Cyngor;
- (b) y bydd y Nwyddau'n cydymffurfio ymhob ffordd ag unrhyw sampl a gymeradwywyd gan y Cyngor ac os nad oes sampl, rhaid i'r holl Nwyddau a gyflenwir fod o fewn cyfyngiadau arferol ansawdd y diwydiant;
- (c) rhaid i'r Nwyddau weithredu'n unol â'r fanyleb dechnegol berthnasol a chyfateb i ofynion y Fanyleb a chydag unrhyw fanylion a ragnodir yn y Contract hwn;
- (d) rhaid i'r Nwyddau gydymffurfio ym mhob ffordd â gofynion y Gyfraith;
- (e) rhaid i'r Nwyddau fod heb ddiffygion o ran dyluniad, deunyddiau a saernïaeth a bod yn addas ac yn ddigonol i'r holl bwrpasau y defnyddir Nwyddau o'r fath iddynt fel arfer ac i unrhyw bwrpas penodol y mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i'r Contractwr amdano.
